Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Y Pethau Pwysig 2022-23**

| **Enw'r Sefydliad** | **Enw a disgrifiad o'r Prosiect** | **Dyfarniad Grant** |
|---|---|---|
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Mynediad i bawb yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol.<br><br>Bydd y cyfleusterau'n cynnwys Lleoedd Newid a Thoiledau i'r anabl, mannau parcio a sgwter symudedd pob tirwedd i'w logi | 117,565 |
| Cyngor Sir Powys | Prosiect Gwella Profiad Ymwelwyr Powys.<br><br>Mae'r Prosiect yn canolbwyntio ar dri lleoliad ymwelwyr allweddol ym Mhowys; Aberhonddu, Llandrindod a Llyn Efyrnwy. Bydd pob lleoliad yn gwneud gwelliannau sy'n galluogi ymwelwyr i gyfeirio eu hunain yn fwy effeithiol wrth gyrraedd yr ardaloedd, ac yn haws dod o hyd i asedau ymwelwyr allweddol a chael mynediad atynt. | 210,400 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Meinciau Pier Bae Colwyn.<br><br>Darperir seddi ar y pier a adnewyddwyd yn ddiweddar i wella'r profiad i ymwelwyr a darparu seddau y mae mawr eu hangen ar gyfer y rhai sydd â phroblemau hygyrchedd | 32,000 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Gwella mapiau, arwyddion a gwybodaeth i ymwelwyr yng Nghonwy a Llandudno | 21,200 |
| Cyngor Gwynedd | Aros-fan<br><br>Bydd y prosiect 'Aros-fan' yn uwchraddio asedau fel meysydd parcio cyhoeddus mewn 6 chyrchfan ar draws Gwynedd i ddatblygu rhwydwaith o leoliadau a fydd yn creu darpariaeth ddilys ar gyfer parcio 'dros nos' a chysgu drwy gydol y flwyddyn at ddibenion cartrefi modur yng Ngwynedd. | 240,000 |
| Cyngor Gwynedd | Parc Gwledig Padarn, Llanberis.<br><br>Bydd y prosiect yn gwneud gwelliannau i'r maes parcio yn ardal Glyn ac yn cynnwys mannau | 250,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | gwefru cerbydau trydan, llochesi beicio, man golchi offer awyr agored a gwaith tir. | |
| Cyngor Sir Ddinbych | Gwella Parc Glan yr Afon (Llangollen)<br><br>Gwneir gwelliannau i'r gyrchfan boblogaidd hon ac maent yn cynnwys golff mini, offer chwarae, Seilwaith gwyrdd gan gynnwys pwyntiau gwefru E-feiciau, seilwaith chwarae dŵr, seddi bandstand, byrddau dehongli a mynediad ramp rhwng lefelau'r parc. | 200,000 |
| Cyngor Sir y Fflint | Parciau i Bawb.<br><br>Bydd y prosiect Parciau i Bawb yn uwchraddio ac yn gwella amwynderau i ymwelwyr a'r cymunedau lleol ym Mharc Gwledig Gwepra a Chwm Maes Glas, dau o fannau gwyrdd treftadaeth mwyaf poblogaidd Sir y Fflint. Bydd y cyfleusterau'n cynnwys gwell darpariaeth toiledau, gan gynnwys toiledau Changing Places ac offer chwarae hygyrch. | 196,000 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Pyrth Arfordirol Môn<br><br>Bydd y prosiect yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiect Pyrth Arfordirol Môn sy'n cynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan, gwefrwyr beiciau trydan, storio beiciau a gwelliannau i waith seilwaith gan gynnwys cyfleusterau Dehongli ac ailgylchu digidol. | 248,000 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Gwelliant i Morfa Mawddach, Gwynedd<br><br>Bydd y prosiect yn gweld gwelliannau y mae mawr eu hangen i'r safle poblogaidd hwn ac mae'n cynnwys gwelliannau i'r maes parcio, adnewyddu'r toiledau cyhoeddus, mannau gwefru cerbydau trydan a beiciau. | 72,000 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Llwybr Arfordir Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr<br><br>Bydd cyllid yn galluogi cwblhau Cynllun Beicio Porthcawl a fydd yn cysylltu'r llwybr beicio o Rest Bay, i Harbourside, a Chanol y Dref i Fae Trecco. Bydd biniau ailgylchu clyfar hefyd wedi'u lleoli ar hyd y llwybr. | 52,000 |
| Cyngor Sir Fynwy | Croeso Tyndyrn<br><br>Bydd Croeso Tyndyrn yn gwella profiad ymwelwyr mewn mannau cyrraedd allweddol yn Nhyndyrn gan gynnwys yr Abaty, meysydd parcio, arosfannau bysiau canol y pentref ac | 250,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | wrth y man cyrraedd newydd lle mae Ffordd Werdd Dyffryn Gwy (llwybr cerdded a beicio) yn dod i mewn i'r pentref. | |
| Cyngor Sir Gaerfyrddin | Datblygiad maes parcio dwyrain Porth Tywyn.<br><br>Bydd gwelliannau'n cynnwys parth parcio hygyrch gyda mannau parcio i'r anabl, pwyntiau cerbydau trydan ychwanegol, cyfleusterau gwefru e-feiciau, 6 pharth parcio cartrefi modur yn ystod y dydd, biniau clyfar, arwyddion newydd a system ddraenio gynaliadwy. | 248,000 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Gwefru Cerbydau Trydan a Chyfleusterau Cyhoeddus<br>Parc Gwledig Margam<br><br>Mae'r prosiect yn cynnwys seilwaith gwefru cerbydau trydan ac adnewyddu cyfleusterau cyhoeddus ar iard y Castell. | 250,000 |
| Cyngor Sir Penfro | Gwella Cyfleusterau Cyhoeddus i wella cynwysoldeb ar Draeth Whitesands.<br><br>Ailgynllunio cyfleusterau cyhoeddus presennol ar Draeth Whitesands i gynnwys Toiled Lleoedd Newid ac Ystafell Deulu. Bydd gorsaf ail-lenwi dŵr hefyd yn cael ei gosod ynghyd â gwelliannau i ymddangosiad mewnol ac allanol y cyfleuster i wella profiad ymwelwyr. | 158,900 |
| Cyngor Sir Penfro | Gwella Mynediad i Draeth Dinbych-y-pysgod<br><br>Gwelliannau mynediad i risiau, canllawiau a llwybrau cerdded mynediad ar draethau'r Gogledd, y Castell a'r De yn Ninbych-y-pysgod. | 42,000 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro | Gwnewch y pethau bychain.<br><br>Bydd gwell mynediad i'w weld ar draethau dethol yn Sir Benfro ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a fydd yn darparu llwybr cerdded ar draws y tywod, strwythur newid cludadwy gydag offer codi a chadeiriau olwyn ar gyfer traethau. Bydd y prosiect hefyd yn gweld mynediad i'r llwybr pren yn Poppit Sands a chreu platfform gwylio newydd. Yn ogystal, bydd cynllun peilot llogi e-feiciau yn cael ei gynnal yn Nhyddewi.. | 160,688 |
| Cyngor Abertawe | Lleoedd Newid yn Rhosili a’r Mwmbwls. | 148,576 |

| | | |
|---|---|---|
| | Gosod cyfleusterau toiledau Lleoedd Newid wedi'u creu ymlaen llaw yn Rhosili a'r Mwmbwls. | |
| | | **2,897,329** |